Prifysgol Abertawe
Swansea University

**Disgrifiad Swydd: Swyddog Ymchwil a Gwyddonydd Data**

| | |
|---|---|
| **Coleg/Ysgol:** | Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Adran/Pwnc:** | Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe |
| **Cyflog:** | Gradd 8: £39,105 – £45,163 y flwyddyn, ynghyd â buddion pensiwn Cynllun USS |
| **Oriau gwaith:** | Amser llawn (35 awr yr wythnos) |
| **Contract:** | Am gyfnod penodol tan 31 Mawrth 2026 |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Parc Singleton |

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad:** | Mae'r grŵp Gwyddor Data Poblogaethau ym Mhrifysgol Abertawe (https://popdatasci.swan.ac.uk/) yn cefnogi ymchwil o safon fyd-eang i ddatblygu offer a methodolegau dadansoddi arloesol i fynd i'r afael â'r heriau mwyaf dybryd ym maes ymchwil iechyd. Mae ein tîm o arbenigwyr yn datblygu dulliau gwyddor data uwch ac yn eu rhoi ar waith, gan ddefnyddio data clinigol, biolegol a genomig, ynghyd â data iechyd amlddimensiynol arall, i fynd i'r afael â heriau ymchwil iechyd pennaf y cyhoedd.<br><br>Mae'r grŵp Gwyddor Data Poblogaethau yn gartref i ymchwilwyr a gwyddonwyr data blaenllaw sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth o brosiectau a rhaglenni â'r nod o wella gwasanaethau a bywydau pobl drwy ymchwil ym maes gwyddor data poblogaethau. Mae'r tîm amlddisgyblaethol hwn yn gweithio mewn amgylchedd ystwyth sy'n symud yn gyflym ac mae'n ymrwymedig i ddangos gwerth gwyddor data i amrywiaeth o gynulleidfaoedd technegol a lleyg. Gan weithio yn yr adeilad Gwyddor Data pwrpasol ar Gampws Parc Singleton Prifysgol Abertawe, bydd deiliad y swydd yn cymryd rhan mewn ymchwil arloesol, yn ymgysylltu â phartneriaid, yn dangos ymroddiad ymarferol ac arbenigedd strategol, ac yn blaenoriaethu ymdrechion ac arbenigedd i gael effaith sylweddol.<br><br>Mae Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n gydweithrediad amlddisgyblaethol rhwng ymchwilwyr, llunwyr polisïau, ac arweinwyr gwasanaethau ar draws Llywodraeth Cymru, y byd academaidd, iechyd y cyhoedd, iechyd a gofal cymdeithasol, a sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru. Bydd Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn darparu tystiolaeth ar flaenoriaethau pwysicaf Cymru ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol a'i phrif nod yw sicrhau bod polisïau a gwasanaethau sydd ar waith yn berthnasol, yn effeithiol ac yn arwain at welliannau i boblogaeth Cymru a chymdeithas decach.<br><br>Fel partner craidd, bydd y grŵp Gwyddor Data Poblogaethau ym Mhrifysgol Abertawe yn cefnogi ac yn arwain gweithgareddau gwerthuso cyflym/ymchwil wreiddiol ar gyfer Canolfan Dystiolaeth |

| | |
|---|---|
| | Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Gan ddefnyddio ffynonellau data cysylltiedig, dienw cyfoethog ar raddfa'r boblogaeth ac ar lefel unigol gan Fanc Data SAIL (Cyswllt Gwybodaeth Ddienw Ddiogel) (www.saildatabank.co.uk) i ateb cwestiynau pwysig ar lefel y boblogaeth sy'n llywio polisi ac yn gwerthuso rhaglenni a phrosiectau cenedlaethol. Mae'r cyhoedd yng Nghymru wrth wraidd ein gwaith o'r dechrau i'r diwedd a bydd yn elfen graidd a hanfodol o'r ganolfan a fydd yn llywio blaenoriaethau, yn cynghori ar waith gwerthuso ac yn sicrhau bod ein hallbynnau yn berthnasol, yn glir ac yn effeithiol. |
| **Gwybodaeth gefndirol:** | Rydym am benodi Swyddog Ymchwil a Gwyddonydd Data i ymuno â'n tîm a fydd yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, sefydliadau a grwpiau amrywiol. Mae ein tîm yn cydweithio'n rheolaidd fel rhan o lawer o brosiectau a rhaglenni ymchwil a ariennir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.<br><br>Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â sgiliau a phrofiad mewn dadansoddi data a gesglir yn rheolaidd (mewn iechyd neu ofal cymdeithasol o ddewis) a chefndir yn unrhyw un o'r meysydd/cefndiroedd canlynol: epidemioleg, ystadegau, ymchwil weithredol, neu gefndiroedd sy'n gysylltiedig â gwybodeg, i weithio ar ymchwil i fethodoleg ystadegol a gwyddor data. |
| **Prif Ddiben y Swydd:** | Nod y ddogfen hon yw darparu disgrifiad swydd cyffredinol ar gyfer darpar ymgeiswyr, gan egluro'n fras y priodweddau a ddisgwylir ganddynt a'r hyn y disgwylir iddynt ei wneud. Mae'n cynnwys y meysydd a amlinellir isod, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:<br><br>1. Gweithio gyda data cysylltiedig ar raddfa fawr (yn enwedig mewn amgylchedd ymchwil dibynadwy megis Banc Data SAIL), gan ddatblygu setiau data cysylltiedig i'w dadansoddi sy'n ateb cwestiynau ymchwil pwysig.<br>2. Defnyddio SQL ac ieithoedd ymholi eraill mewn systemau cronfeydd data ac arbenigedd mewn dulliau a thechnegau cysylltu cofnodion.<br>3. Casglu a deall data newydd, gan sicrhau bod yr holl ofynion llywodraethu gwybodaeth yn cael eu bodloni a'u dilyn (yn enwedig er mwyn defnyddio a chynnwys y data mewn amgylchedd ymchwil dibynadwy megis Banc Data SAIL). Arwain trafodaethau â sefydliadau sy'n darparu data, neu gymryd rhan yn y trafodaethau hyn, gan sicrhau bod mesurau diogelwch a llywodraethu yn cael eu dilyn.<br>4. Cydweithio â chydweithredwyr ac ymchwilwyr eraill i gynorthwyo wrth droi cwestiynau ymchwil yn atebion ac yn ddatblygiadau priodol.<br>5. Cefnogi a/neu hyfforddi cydweithredwyr sy'n meddu ar lefelau amrywiol o brofiad blaenorol neu sgiliau o bosib, i'w galluogi i gynnal eu hymchwil. Cymryd cyfrifoldeb am drosglwyddo gwybodaeth rhwng rhanddeiliaid o sefydliadau a disgyblaethau gwahanol.<br>6. Ymgymryd â gwaith dadansoddi data cymhleth a strwythuredig, gan ymdrin yn briodol â data dyblyg, data sydd ar goll a data gwallus. Creu metadata a dogfennaeth ar gyfer unrhyw baratoadau data sydd newydd gael eu cwblhau, dogfennu unrhyw benderfyniadau neu ddatblygiadau methodolegol, gan arwain at lunio a chyfrannu at adroddiad cysylltiedig i baratoi allbynnau.<br>7. Datblygu dulliau rheoli data a dadansoddi data ystadegol, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a rhannu arferion da ymhlith cydweithwyr. Mae defnyddio prosesau rheoli fersiynau a |

| | |
|---|---|
| | dogfennau priodol yn cyfrannu at ddysgu a datblygu ar y cyd drwy rannu sgriptiau a chodau wedi'u datblygu, dulliau dadansoddol a dogfennaeth gysylltiedig.<br>8. Cyfrannu at ddehongli canfyddiadau prosiectau a llunio allbynnau prosiectau, gan gynnwys adroddiadau, cyhoeddiadau a cheisiadau am grantiau, neu gyfrannu at y gwaith hwn.<br>9. Cymryd rhan yn yr holl gyfarfodydd perthnasol prosiectau a chyfrannu atynt. Hefyd, cynrychioli'r sefydliad drwy fynd i gyfarfodydd a rhoi cyflwyniadau mewn cyfarfodydd, digwyddiadau a chynadleddau.<br>10. Gan weithio'n annibynnol, rheoli'r gwaith o gwblhau gweithgareddau personol a gweithgareddau prosiectau i fodloni terfynau amser heb angen cael eich goruchwylio o ddydd i ddydd, ond gan nodi risgiau a gofyn cwestiynau yn ôl yr angen.<br>11. Cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill, ac ymgymryd â gweithgareddau, sy'n briodol i'ch profiad a'ch sgiliau, gan reoli disgwyliadau yn unol â dyletswyddau o ran cyflawni'r prosiect, hyfforddiant a gweithgarwch cyffredinol y rôl.<br>12. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>13. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>14. Cynnal yr holl weithgareddau yn unol â gofynion amgylcheddol y Brifysgol fel y'u nodir yn ei Pholisi Cynaliadwyedd a'i System Rheoli Amgylcheddol er mwyn lleihau effaith unigol ac adrannol.<br>15. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgareddau.<br>16. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |
| **Manyleb Person:** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br>1. Gradd (neu gymhwyster cyfwerth) mewn pwnc perthnasol neu brofiad cyfatebol.<br>2. Tystiolaeth o ymgysylltu gweithredol, rôl bersonol a gallu mewn ysgrifennu a chyhoeddi allbynnau ymchwil a chyfrannu at hynny (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i adroddiadau a chyhoeddiadau mewn cyfnodolion a adolygir a chrynodebau i gynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol).<br>3. Profiad o gynllunio ymchwil a/neu gyfrannu at ddatblygu ceisiadau am gyllid ymchwil allanol, gan gynnwys ysgrifennu a threfnu ceisiadau.<br>4. Tystiolaeth o brofiad a sgiliau ym maes rheoli prosiectau ymchwil, gan gynnwys gweithio'n annibynnol i reoli gweithgareddau dadansoddi, ymchwil a gweinyddol i fodloni dyddiadau cau prosiectau.<br>5. Tystiolaeth o'r gallu i drin, dadansoddi a chrynhoi data mewn iaith raglennu, gan gadw data ar gronfa ddata berthynol drwy Iaith Ymholiadau Strwythuredig (SQL).<br>6. Profiad o sgiliau rheoli data a dogfennau, gan gynnwys datblygu a chynnal data ymchwil, rheoli fersiynau cysylltiedig a dogfennaeth/meta-data.<br>7. Tystiolaeth o ddealltwriaeth o ddefnyddio data ar gyfer ymchwil, gan gynnwys profiad o sgiliau rhaglennu gyda meddalwedd ystadegol, megis R neu Python (gellir defnyddio meddalwedd ddadansoddol/ystadegol arall gyda sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys SAS, SPSS, STATA, ac ati. )<br>8. Profiad o weithio gyda "data mawr" cysylltiedig ar raddfa fawr, ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn ddelfrydol. |

| | |
|---|---|
| | 9. Tystiolaeth o sgiliau wrth ddefnyddio technegau a dulliau delweddu data i greu allbynnau ymchwil a chyfleu canfyddiadau i gynulleidfaoedd amrywiol.<br>10. Profiad o waith dadansoddi ystadegol (gan gynnwys dulliau a thechnegau dadansoddi priodol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, megis ystadegau disgrifiadol, dulliau dadansoddi goroesiad, modelau llinol cyffredinol a metaddadansoddi, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain).<br>11. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys parodrwydd i feithrin arbenigedd ym maes gwyddor data, gwybodeg iechyd a disgyblaethau cysylltiedig.<br>12. Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>**Meini Prawf Dymunol**<br>13. Gradd uwch neu radd ôl-raddedig mewn pwnc perthnasol.<br>14. Dealltwriaeth o dermau codio clinigol a'u defnydd yn y GIG.<br>15. Profiad o oruchwylio myfyrwyr israddedig neu ôl-raddedig neu brosiectau/cydweithredwyr allanol (neu debyg).<br><br>**Y Gymraeg:**<br>Lefel 1 – 'ychydig' (ni fydd angen i chi allu siarad Cymraeg i gyflwyno cais am y rôl hon)<br>*e.e. ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau.Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da).Gallu defnyddio neu ddysgu geiriau ac ymadroddion sylfaenol pob dydd (diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.*<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | Gellir anfon ymholiadau anffurfiol drwy e-bost at sylw: **Ashley Akbari** at a.akbari@abertawe.ac.uk |